

2023 Rhif (Cy.)

2023 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth)
i Gyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd
Caernarfon), Bangor, Gwynedd)
(Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a
Cherddwyr Dros Dro) 2023

The A55 Trunk Road (Junction 9
(Treborth Interchange) to Junction
10 (Caernarfon Road Interchange),
Bangor, Gwynedd) (Temporary
Prohibition of Vehicles, Cyclists &
Pedestrians) Order 2023

Gwnaed 31 Mai 2023

Made 31 May 2023

Yn dod i rym 3 Mehefin 2023

Coming into force 3 June 2023

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) i Gyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon), Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Mehefin 2023.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 9 (Treborth Interchange) to Junction 10 (Caernarfon Road Interchange), Bangor, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2023 and this Order comes into force on 3 June 2023.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 18:00 o’r gloch ar 3 Mehefin 2023 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

6. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

31 Mai 2023

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Bangor trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 18:00 hours on 3 June 2023 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

31 May 2023

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darn o gerbyttffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon), gan gynnwys y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 9 a’r ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 10.

SCHEDULE

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from its nosing with the eastbound exit slip road at Junction 9 (Treborth Interchange) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 10 (Caernarfon Road Interchange), including the eastbound entry slip road at Junction 9 and the eastbound exit slip road at Junction 10.